# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 1 Mai 2012** |
| Amser: | **09:08 – 11:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
<insert link here>

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | **Steve Brown, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru**<br>**Kathryn Monk, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru**<br>**Tony Harrington, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd, Dŵr Cymru**<br>**Fergus O'Brien, Dŵr Cymru**<br>**Julian Kirby, Cyfeillion y Ddaear**<br>**Haf Elgar, Cyfeillion y Ddaear**<br>**Katherine Simmons, Deisebydd (Kyle's Goal)**<br>**Emma Wools, Deisebydd (Kyle's Goal)**<br>**Frances Gibbon**<br>**Julie Smith, Headway**<br>**Dr Cerilan Rogers, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru**<br>**Daniel Phillips, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru**<br>**Dr Chris Jones, Llywodraeth Cymru**<br>**Dr Heather Payne, Prif Swyddog Feddygol, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Abigail Phillips (Clerc)**<br>**Sarita Marshall (Dirprwy Glerc)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Dr Catherine Bochel, a oedd yn gwylio o'r oriel gyhoeddus.

## 2. P-04-329 Rheoli sŵn o dyrbinau gwynt sy'n peri diflastod – trafod ymweliadau â safleoedd a thystiolaeth a ddaeth i law ar 28 Chwefror

Cytunodd y Pwyllgor i gynhyrchu adroddiad byr ar reoli sŵn o dyrbinau gwynt, ac i wneud cais i gael trafodaeth am y pwnc yn y Cyfarfod Llawn.

## 3. Deisebau newydd

3.1 P-04-384 Cysylltiad â'r M48 o'r B4245 Cil-y-Coed/Rogiet

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb am y tro cyntaf, a chytunodd i aros am ymateb y Gweinidog.

3.2 P-04-385 Deiseb ar ryddhau balŵns a lanternau

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb am y tro cyntaf, a chytunodd i aros am ymateb y Gweinidog.

3.3 P-04-387 Arwyddion a draeniad ar yr A467

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb am y tro cyntaf, a chytunodd i aros am ymateb y Gweinidog.

3.4 P-04-388 Diogelu'r arfer o addoli ar y cyd fel gofyniad cyfreithiol

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb am y tro cyntaf, a chytunodd i aros am ymateb y Gweinidog.

## 4. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

4.1 P-04-365 Diogelu adeiladau nodedig ar safle hen Ysbyty Canolbarth Cymru

Datgannodd y Cadeirydd fuddiant yn y pwnc gan ei fod yn gynghorydd lleol yn Nhalgarth.

Cytunodd y Pwyllgor i:
Ysgrifennu, unwaith eto, at Cadw i awgrymu iddo weithredu camau dros dro i ddiogelu adeiladau o'r fath nes i'r Bil Treftadaeth gael ei basio;
Ysgrifennu at y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth i wneud cais bod camau diogelu dros dro yn cael eu gweithredu nes i'r Bil Treftadaeth gael ei basio;
Ysgrifennu at Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i bwysleisio'r ffaith bod y safle mewn ardal gadwraeth ac i ofyn bod unrhyw geisiadau cynllunio a gaiff eu derbyn yn diogelu adeiladau nodedig yn yr ardal gadwraeth.

4.2 P-04-369 Deiseb yn erbyn y Llwybr Arfordirol o Gaerdydd i Gasnewydd a thu hwnt

Bu'r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth a ddaeth i law mewn perthynas â'r ddeiseb.

Datgannodd Joyce Watson fuddiant gan ei bod yn aelod o'r RSPB.

Cytunodd y Pwyllgor i ddilyn hynt ei ohebiaeth gyda'r RSPB.

## 5. P-03-238 Llygredd ym Mornant Porth Tywyn – sesiwn dystiolaeth lafar

Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan y Pwyllgor.

Cytunodd Dŵr Cymru i rannu manylion â'r Pwyllgor ynghylch dŵr wyneb a'i waith ar ddraenio cynaliadwy dinesig yn yr ardal.

Cytunodd y tystion i ymateb yn ysgrifenedig i unrhyw gwestiynau na chafwyd amser i'w gofyn yn y cyfarfod.

## 6. P-04-341 Llosgi gwastraff - sesiwn dystiolaeth lafar

Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan y Pwyllgor.

Cytunodd y tystion i rannu unrhyw ddata a dadansoddiad perthnasol o effaith y dirwasgiad ar lefel y gwastraff.

## 7. P-03-295 Kyle Beere - Gwasanaethau Niwroadsefydlu Paediatrig - Trafodaeth

Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan y Pwyllgor.

Datgannodd Bethan Jenkins fuddiant gan iddi helpu i sefydlu'r gwasanaeth Headway ym Mhort Talbot.

## 8. Papurau i'w nodi - tystiolaeth bellach o effaith sŵn o dyrbinau gwynt

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.